# Adolygiad o'r Gwasanaeth Cynllunio – Cyngor Caerdydd

Blwyddyn archwilio: 2024-25

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4995A2025

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg.

# Cynnwys


Crynodeb o'r adroddiad 4

Argymhellion 6

Data ynghylch perfformiad 8

Adroddiad manwl

Yr hyn a ganfuom: Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n wasanaeth allweddol i gynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei amcanion llesiant ond ceir cyfleoedd i ddangos ei werth i'r Cyngor trwy wella'r modd y mae'r gwasanaeth yn cael ei gynllunio, y modd yr adroddir arno a'i drefniadau llywodraethu 12

Atodiadau

Atodiad 1 – Cwestiynau archwilio a meini prawf archwilio 21

# Crynodeb o’r adroddiad

## Crynodeb o’r adroddiad

**Arddangosyn 1: crynodeb o’r adroddiad**

Mae’r arddangosyn isod yn crynhoi’r rheswm y cynhaliom ni’r archwiliad hwn, ein canfyddiadau allweddol a’n hargymhellion i’r Cyngor.

**Pam fod y Gwasanaeth Cynllunio’n bwysig**

1 Mae’r Gwasanaeth Cynllunio gan gynnwys gorfodi a Pholisi Cynllunio yn wasanaethau allweddol i gyngor. Mae’r Gwasanaeth Cynllunio’n rheoli’r modd y datblygir ac y defnyddir tir er budd y cyhoedd. Mae’n cyfrannu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

2 Rhaid i’r Gwasanaeth Cynllunio gysoni anghenion datblygu a chadwraeth, gan sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd, ac amwynder o ran defnyddio tir, gan felly sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli’n gynaliadwy a bod yr amgylchedd adeiledig a hanesyddol yn cael ei ddiogelu, ei hyrwyddo, ei warchod a’i wella.

3 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori’n ddiweddar ar ‘hyrwyddo gwasanaeth cynllunio cydnerth sy’n perfformio’n dda[1]’. Yn gryno, fe ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y canlynol:

- cynyddu ffioedd ceisiadau cynllunio;
- newid y fframwaith rheoli perfformiad;
- cadw sgiliau mewn Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau), ynghyd â bwrsariaethau a phrentisiaethau; a
- gwella cydnerthedd ac adnoddau gyda Chydbwyllgorau Corfforedig gan gynnwys estyn y cyfnod ar gyfer Adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol.

4 Ar adeg yr archwiliad hwn, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno newidiadau’n ffurfiol yn dilyn yr ymgynghoriad hwn. Felly, mae’r archwiliad hwn yn adlewyrchu trefniadau Gwasanaeth Cynllunio’r Cyngor cyn unrhyw newidiadau gan Lywodraeth Cymru.

[1] Dogfen ymgynghori

**Ffocws ein harchwiliad**

5 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Gwasanaeth Cynllunio:

- yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei amcanion llesiant;
- yn meddu ar drefniadau i roi cymorth i gyflawni ei amcanion;
- yn meddu ar rolau a chyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n glir, gan gynnwys y Pwyllgor Cynllunio, ac yn ymlynu wrthynt; ac
- yn adolygu ac yn monitro effeithiolrwydd ei drefniadau.

6 Fe wnaethom hefyd adolygu perfformiad y Gwasanaeth Cynllunio.

7 Ni wnaethom adolygu penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio unigol.

8 Mae **Atodiad 1** yn nodi'r cwestiynau yr oeddem yn amcanu at eu hateb ynghyd â'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i lunio ein canfyddiadau.

9 Fe gynhaliom ni'r archwiliad hwn rhwng mis Mawrth a mis Mai 2025.

10 Cynhaliwyd yr archwiliad hwn i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol dan adran 17(2)(d) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Ein canfyddiadau allweddol**

11 Canfuom fod y Gwasanaeth Cynllunio'n wasanaeth allweddol i gynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei amcanion llesiant ond bod cyfleoedd i ddangos ei werth i'r Cyngor trwy wella'r modd y mae'r gwasanaeth yn cael ei gynllunio, y modd yr adroddir arno a'i drefniadau llywodraethu:

- mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n wasanaeth allweddol i gynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau.
- mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n cryfhau ei gydnerthedd a'i gapasiti, ond ceir gwendidau yn ei drefniadau ar gyfer pennu'r gyllideb.
- ceir bylchau yn nhrefniadau cynllunio gwasanaeth y Gwasanaeth Cynllunio ac mae cyfathrebu'n digwydd mewn seilos.
- nid yw trefniadau'r Gwasanaeth Cynllunio wastad yn ei gynorthwyo i fod yn effeithlon.
- ceir diwylliant dysgu a datblygu cefnogol yn y Gwasanaeth Cynllunio, ond nid yw'r gwasanaeth yn darparu proses sefydlu strwythuredig ac nid oes trefniant ganddo i swyddogion rannu gwersi.
- nid oedd gan y Gwasanaeth Cynllunio gyfleoedd ffurfiol i swyddogion a rhanddeiliaid ddarparu adborth i oleuo dyluniad y gwasanaeth yn y dyfodol, ond erbyn hyn mae'r gwasanaeth yn ffurfioli ei drefniadau adolygu.
- mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n adrodd ar ei berfformiad i ateb gofynion statudol a chorfforaethol, ond nid yw hyn yn dangos gwerth y gwasanaeth i'r Cyngor a'r cyhoedd yn llawn.
- mae aelodau'r Pwyllgor Cynllunio'n deall eu rôl a'u cyfrifoldebau. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi adolygu trefniadau llywodraethu ei

Bwyllgor Cynllunio i sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau sy'n cefnogi'r pwyllgor hwn.

# Argymhellion

**Ein hargymhellion i'r Cyngor**

**Cynllunio'r Gwasanaeth**

A1 Dylai'r Gwasanaeth Cynllunio gryfhau ei drefniadau ar gyfer cynllunio'r gwasanaeth i adlewyrchu ehangder gweithgarwch y gwasanaeth a'i gyfraniad i'r Cyngor. Byddai hyn yn ei helpu i ddarparu ffocws eglur ar berfformiad y gwasanaeth, ei flaenoriaethau, risgiau, heriau a gwelliannau i'r gwasanaeth.

**Cyfathrebu o fewn y Gwasanaeth**

A2 Dylai'r Gwasanaeth Cynllunio gyflwyno trefniadau i wella cyfathrebu ar draws y Gwasanaeth Cynllunio i leihau'r arfer o weithio mewn seilos, hwyluso dysgu ar y cyd a gwella'r modd y cynllunnir y gwasanaeth.

**Adrodd ar berfformiad**

A3 I ddangos yn well beth yw ei werth i'r Cyngor, dylai'r Gwasanaeth Cynllunio wella'r modd y mae'n adrodd ar ei berfformiad trwy:

- adfer ei adroddiad blynyddol ar berfformiad cynllunio i alluogi aelodau a'r cyhoedd i gael dealltwriaeth well a mwy trylwyr am berfformiad y gwasanaeth; a
- chyhoeddi adroddiad Adran 106 blynyddol i ddarparu dealltwriaeth drylwyr am y modd y dyrannwyd arian Adran 106 ar draws y Cyngor a'r ddinas.

**Dysgu a Datblygu**

A4 Dylai'r Gwasanaeth Cynllunio:

- ffurfioli ei drefniadau sefydlu i sicrhau bod dull strwythuredig a chyson; a
- datblygu trefniadau i rannu gwersi o fewn y gwasanaeth.

**System TG y Gwasanaeth Cynllunio**

A5 Mae angen i'r Cyngor wella hyfforddiant staff ar system TG y Gwasanaeth Cynllunio i sicrhau defnydd llawn o ymarferoldeb y system ac i wella effeithlonrwydd.

**Ymatebion gan ymgyngoreion mewnol**

A6 I wella effeithlonrwydd, dylai'r Gwasanaeth Cynllunio ddatblygu trefniadau ffurfiol a strwythuredig i gael ymatebion gan ymgyngoreion mewnol.

**Gorfodi**

A7 Dylai'r Cyngor fabwysiadu a chyhoeddi ei bolisi gorfodi a chyhoeddi ei gofrestr gorfodi.

**Trefniadau llywodraethu**

A8 Dylai'r Cyngor gryfhau trefniadau llywodraethu ei Wasanaeth Cynllunio trwy:

- adolygu gweithdrefnau'r Pwyllgor Cynllunio i sicrhau bod y rhain yn berthnasol ac yn gyfoes i gefnogi'r Pwyllgor Cynllunio a swyddogion cynllunio.
- cynnal ei adolygiad arfaethedig o'r Cynllun Dirprwyo i ddiffinio'r hyn y mae'n eu hystyried yn geisiadau cynllunio strategol bwysig a 'mawr' er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor Cynllunio'n canolbwyntio ar y ceisiadau cynllunio mwyaf strategol bwysig.
- adolygu'r cydbwysedd o ran yr amser sydd gan aelodau o wardiau lleol i siarad ar geisiadau cynllunio yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio o'i gymharu â'r amser sydd gan y cyhoedd i siarad arnynt.
- sicrhau bod ceisiadau cynllunio a gyflwynwyd gan, neu ar ran, y swyddogion yn y Gwasanaeth Cynllunio yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Cynllunio ac nid dan bwerau a ddirprwywyd i swyddogion. Byddai hyn yn diogelu rhag unrhyw wrthdaro buddiannau canfyddedig ac yn hybu annibyniaeth a thryloywder.

**Codi ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Cynllunio**

A9 Fe wnaeth ein hadroddiad ar Reoli'r Rhaglen Gyfalaf[2] a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2025 nodi nad oedd y Cyngor wedi adolygu ei dempled achosion busnes safonol ar gyfer prosiectau ers 2014. Pan fydd y Cyngor yn adolygu hwn, dylai gynnwys rôl y Gwasanaeth Cynllunio i godi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael gan y gwasanaeth hwn ac i ysgogi ymgysylltiad cynnar gan wasanaethau eraill.


[2] Archwilio Cymru, Cyngor Caerdydd – Rheoli'r Rhaglen Gyfalaf, Ionawr 2025

# Data ynghylch perfformiad

12 Bob chwarter, mae Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) yn adrodd wrth Lywodraeth Cymru ar ddata ynghylch perfformiad. Mae Llywodraeth Cymru'n adrodd yn gyhoeddus ar dri dangosydd perfformiad[3]. Mae cyhoeddi'r wybodaeth hon yn ei gwneud yn bosibl cymharu perfformiad y Gwasanaeth Cynllunio â pherfformiad ACLlau eraill. Fe wnaethom adolygu'r data a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn y cyfnod rhwng mis Ebrill 2023 a mis Rhagfyr 2024. Ar adeg yr archwiliad hwn, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi data ynghylch perfformiad ar gyfer y cyfnod o fis Ionawr 2025 ymlaen.

13 Isod ceir perfformiad y Gwasanaeth Cynllunio o'i gymharu â'r ACLlau eraill.


**Arddangosyn 2: amser cyfartalog i benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio, mewn diwrnodau**




14 Rhwng mis Ebrill 2023 (Ch1 2023-24) a mis Mehefin 2024 (Ch1 2024-25), fe berfformiodd y Cyngor yn gyson yn well na chyfartaledd Cymru ar gyfer yr amser cyfartalog mewn diwrnodau i benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio. Rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2024 (Ch2 2024-25), fe berfformiodd y Cyngor yn waeth na chyfartaledd Cymru ond fe wellodd rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2024 (Ch3 2024-25) i berfformio'n well na chyfartaledd Cymru unwaith eto.


[3] Llywodraeth Cymru, Arolygon chwarterol rheoli datblygu

**Arddangosyn 3: Canran y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd yn eu cylch o fewn graddfeydd amser statudol a chytunedig**





15 Rhwng mis Ebrill 2023 (Ch1 2023-24) a mis Rhagfyr 2023 (Ch3 2024-25), fe berfformiodd y Cyngor islaw cyfartaledd Cymru ar gyfer canran y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd yn eu cylch o fewn graddfeydd amser statudol a chytunedig. Fodd bynnag, o fis Ionawr 2024 (Ch4 2023-24) fe wellodd perfformiad yn sylweddol ac mae'n gyson yn uwch na chyfartaledd Cymru.

**Arddangosyn 4: Canran y penderfyniadau gan y Pwyllgor Cynllunio a oedd yn groes i argymhellion swyddogion**




16 Fe wnaethom hefyd adolygu ffurflenni chwarterol y Gwasanaeth Cynllunio i Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2023 a mis Rhagfyr 2024. Er bod y Gwasanaeth Cynllunio'n cyflwyno'r wybodaeth hon i Lywodraeth Cymru, nid yw Llywodraeth Cymru'n adrodd yn gyhoeddus ar yr wybodaeth hon. Felly, nid ydym yn gallu cyflwyno gwybodaeth sy'n cymharu perfformiad y Cyngor â pherfformiad ACLlau eraill ar gyfer **Arddangosion 5 i 7**.


**Arddangosyn 5: Canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod neu lai**




**Arddangosyn 6: Amser cyfartalog a gymerwyd i gymryd camau gorfodi cadarnhaol, mewn diwrnodau**



**Arddangosyn 7: Amser cyfartalog i benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio MAWR, mewn diwrnodau**



# Adroddiad manwl

## Yr hyn a ganfuom: Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n wasanaeth allweddol i gynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei amcanion llesiant ond ceir cyfleoedd i ddangos ei werth i'r Cyngor trwy wella'r modd y mae'r gwasanaeth yn cael ei gynllunio, y modd yr adroddir arno a'i drefniadau llywodraethu

### Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n wasanaeth allweddol i gynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau

17 Mae gan y Gwasanaeth Cynllunio rôl allweddol i gynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei amcanion llesiant. Roedd aelodau a swyddogion yn gallu disgrifio'n glir sut y mae'r gwasanaeth yn cefnogi'r Cyngor. Mae cytundebau lefel gwasanaeth yn eu lle gyda rhai o feysydd gwasanaeth y Cyngor sy'n eu cysylltu'n ffurfiol â'r Gwasanaeth Cynllunio. Mae swyddogion o'r Gwasanaeth Cynllunio'n mynychu ystod o fyrddau prosiectau a byrddau rhaglenni'r Cyngor hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys Bwrdd y Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion; y Bwrdd Datblygu Economaidd a'r Bwrdd Rheoli Asedau. Mae'r cysylltiadau hyn yn golygu bod y Cyngor yn cael cyngor cynllunio proffesiynol ar yr adeg iawn, a hynny cyn dyrannu adnoddau a all fod yn sylweddol ar ddatblygu datblygiadau mawr nad ydynt o bosibl yn cyd-fynd â pholisïau cynllunio perthnasol.

18 Oherwydd maint y Cyngor, mae'n anorfod y bydd lefelau gwahanol o ymwybyddiaeth o rôl y Gwasanaeth Cynllunio a'r cymorth sydd ar gael ganddo. Nid oes gan bob maes gwasanaeth gytundeb lefel gwasanaeth gyda'r Gwasanaeth Cynllunio. Felly, efallai nad yw rhai meysydd gwasanaeth mor ymwybodol o bwysigrwydd ymgysylltu â'r Gwasanaeth Cynllunio ar adeg gynnar wrth ddatblygu prosiectau. Mae ymgysylltu â'r Gwasanaeth Cynllunio ar yr adeg gywir yn arbennig o bwysig oherwydd y gofyniad deddfwriaethol i'r Cyngor gydymffurfio â'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau a pholisïau cynllunio cenedlaethol ar seilwaith gwyrdd. Pan nad yw gwasanaethau'n ymgysylltu â'r gwasanaeth cynllunio'n gynnar yn y broses, gall hynny arwain at bwysau ychwanegol ar y gwasanaeth. Gallai hyn arwain at ddefnyddio adnoddau'r Cyngor yn aneffeithlon hefyd trwy ddatblygu prosiectau nad ydynt o bosibl yn cyd-fynd â pholisïau cynllunio perthnasol gan arwain at oedi.

19 Yn ein hadroddiad ar Reoli'r Rhaglen Gyfalaf[4] a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2025, fe wnaethom nodi bod gan y Cyngor dempled achosion busnes safonol ar gyfer prosiectau. Fe adolygodd y Cyngor hwn ddiwethaf yn 2014. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i adolygu'r templed hwn. Wrth wneud hynny, byddai o fudd myfyrio ynghylch cynnwys y rôl a chymorth allweddol sydd ar gael gan y Gwasanaeth

[4] Archwilio Cymru, Cyngor Caerdydd – Rheoli'r Rhaglen Gyfalaf, Ionawr 2025

Cynllunio. Gallai hyn godi ymwybyddiaeth ymhlith meysydd gwasanaeth y Cyngor a sicrhau ymgysylltu cynnar â'r Gwasanaeth Cynllunio.

20 Mae Cynllun Datblygu Lleol cyfredol y Cyngor wedi esblygu ers ei gymeradwyo yn 2016. Fe ymatebodd y Cyngor i newidiadau mewn polisïau cynllunio cenedlaethol, cyflwyno Cymru'r Dyfodol 2040 a datganiad y Cyngor ei bod hi'n argyfwng ar yr hinsawdd. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol cyfredol yn dal i fod yn ddogfen berthnasol i'r Cyngor sy'n rhoi arweiniad wrth wneud penderfyniadau cynllunio.

21 Ar adeg yr archwiliad hwn, roedd y tîm Polisi Cynllunio'n gweithio ar Gynllun Datblygu Lleol newydd (CDLlN). Mae cynhyrchu CDLlN yn adnodd-ddwys ac yn gostus. Mae'r tîm Polisi Cynllunio'n ceisio amrywiaeth o farn a mewnbwn ar ddrafftio polisïau ar gyfer y CDLlN ac o ran drafftio Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA). Fe wnaeth swyddogion y tu allan i Bolisi Cynllunio, megis Rheoli Datblygu, Creu Lleoedd, Tai a Thrafnidiaeth, ddrafftio agweddau ar wahanol Ganllawiau Cynllunio Atodol. Mae hyn yn dangos bod y Cyngor yn defnyddio adnoddau eraill yn y Cyngor wrth baratoi'r cynllun arwyddocaol a sylweddol hwn.

22 Mae gan y Gwasanaeth Cynllunio gronfa wrth gefn wedi'i neilltuo y mae'n ei defnyddio i ariannu costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â datblygu ei CDLlN. Mae'r dull hwn yn dangos cynllunio ariannol darbodus gan y Cyngor.

## Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n cryfhau ei gydnerthedd a'i gapasiti, ond ceir gwendidau yn ei drefniadau ar gyfer pennu'r gyllideb

23 Mewn ymateb i heriau ariannol, nifer o flynyddoedd yn ôl fe wnaeth y Cyngor leihau nifer ei reolwyr gweithredol. O ganlyniad, fe ostyngodd nifer y rheolwyr gweithredol sy'n cefnogi'r Pennaeth Cynllunio i ddau. I gefnogi'r rheolwyr hyn, tuag at ddiwedd 2024 fe greodd y Cyngor rolau Arweinwyr Grŵp o fewn y Gwasanaeth Cynllunio. Fe luniodd y Cyngor y rolau hyn er mwyn:

- darparu cydnerthedd;
- creu cyfleoedd ar gyfer datblygiad gyrfa o fewn y gwasanaeth;
- mynd i'r afael â gwasgbwynt o ran cymeradwyo ceisiadau cynllunio; a
- chreu capasiti i reolwyr gweithredol flaengynllunio a gweithredu gwelliannau i wasanaethau.

24 Er y bu ganddo weithlu sefydlog am nifer o flynyddoedd, yn y 12-18 mis blaenorol, fe gollodd y gwasanaeth swyddogion profiadol oherwydd ymddeoliad a dyrchafiadau yn fewnol ac yn allanol. Oherwydd heriau ariannol ehangach y Cyngor, fe oedodd y gwasanaeth cyn recriwtio. Fe greodd hyn bwysau gwaith ychwanegol ar gyfer y swyddogion a oedd yn weddill. Ar adeg yr archwiliad hwn, roedd y gwasanaeth yn dechrau'r broses recriwtio. Mae'r Cyngor yn bwriadu i hyn leihau llwythi achosion ar gyfer swyddogion presennol a meithrin mwy o gapasiti o fewn y gwasanaeth.

25 Mae'r Cyngor yn cydnabod y gwerth i'r Gwasanaeth Cynllunio pan fo'n buddsoddi yn rôl darpar gynllunwyr. Mae'r rôl hon o fudd i'r ddwy ochr, y myfyrwyr a'r

gwasanaeth, fel ei gilydd. Mae'r gwasanaeth yn cynnig gwaith rhan-amser i ddarpar gynllunwyr ar ôl eu lleoliad gwaith un flwyddyn. Fe wnaeth y Cyngor adfer y rôl hon ddeng mlynedd yn ôl ac mae wedi helpu i wella cydnerthedd yn y gwasanaeth.

26 Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n mynd ati'n rhagweithiol i fonitro ei incwm o ffioedd cynllunio, Cytundebau Perfformiad Cynllunio (PPAs) a Chytundebau Lefel Gwasanaeth (SLAs). Mae'n tracio ei incwm bob mis ac yn proffilio ei incwm am y ddwy flynedd nesaf. Gall monitro'r wybodaeth hon yn gywir gynorthwyo'r Gwasanaeth Cynllunio i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

27 Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi cofnodi costau cyflog staff yn anghywir o fewn cyllideb y Gwasanaeth Cynllunio. O ganlyniad, fe gyflwynodd y Cyngor adroddiadau alldro refeniw blynyddol anghywir i Lywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli Datblygu a Pholisi Cynllunio. Mae hyn yn dangos gwendidau ym mhrosesau pennu'r gyllideb a monitro'r gyllideb. Mae'r gwasanaeth wedi datrys hyn ar gyfer data alldro refeniw 2024-25 a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru.

## Ceir bylchau yn nhrefniadau cynllunio gwasanaeth y Gwasanaeth Cynllunio ac mae cyfathrebu'n digwydd mewn seilos

28 Mae gan y Gwasanaeth Cynllunio gyfrifoldebau eang. Mae'n penderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio, mae'n ymdrin ag achosion gorfodi, ac mae'n pennu polisïau cynllunio a Chanllawiau Cynllunio Atodol i roi arweiniad ar gyfer penderfyniadau cynllunio. Mae'n bwysig ei bod hi'n glir i'r Gwasanaeth Cynllunio sut y bydd yn cyflawni ei gyfrifoldebau.

29 Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n eistedd o fewn y gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd (PTE). Mae gan gynllun cyflawni'r gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd bum mesur perfformiad a cham gweithredu ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio. Mae'r rhain yn dangos cyfraniad y gwasanaeth i ategu blaenoriaethau adfywio a thwf economaidd y Cyngor. Mae gan y pum mesur perfformiad dargedau blynyddol a data sylfaenol. Fodd bynnag, nid yw'r gwasanaeth yn ymwneud yn uniongyrchol â chyflawni tri o'r mesurau perfformiad. Nid yw'r camau gweithredu a'r mesurau perfformiad ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio o fewn cynllun cyflawni'r gyfarwyddiaeth yn cwmpasu ehangder cyfraniadau'r gwasanaeth i'r Cyngor a'r cyhoedd.

30 Mae gan y Cyngor Fframwaith Rheoli Perfformiad Corfforaethol. Mae'r fframwaith hwn yn nodi'n glir bod gan bob Cyfarwyddiaeth Gynllun Cyflawni Cyfarwyddiaeth blynyddol. Dylai Cynlluniau Cyflawni'r Cyfarwyddiaethau gynnwys manylion y camau gweithredu a gweithgareddau pwysig o ran sut y bydd y Cyngor yn cyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Fodd bynnag, mae rhwydd hynt i bob gwasanaeth benderfynu a oes angen cynllun ar lefel y gwasanaeth.

31 Nid oes cynllun gwasanaeth gan y Gwasanaeth Cynllunio. Felly nid yw'n darparu eglurder ynghylch ei flaenoriaethau, ei ddyheadau o ran ei berfformiad, risgiau, camau gwella a defnyddio ei adnoddau yn y dyfodol.

32 Ceir nifer o fanteision i fod â chynllun gwasanaeth. Er enghraifft, gall:

- adlewyrchu ehangder gweithgarwch y gwasanaeth a'i gyfraniad i'r Cyngor;
- galluogi'r Cyfarwyddwr i adnabod y camau gweithredu a'r mesurau perfformiad hynny sy'n ategu Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth a blaenoriaethau corfforaethol;
- nodi dyheadau'r gwasanaeth o ran ei berfformiad;
- cynnwys camau gwella'r gwasanaeth;
- cynnwys heriau, blaenoriaethau a chamau gweithredu allweddol;
- adnabod risgiau i'r gwasanaeth a chamau i'w lliniaru;
- gwella cyfathrebu o fewn y gwasanaeth trwy ddarparu ffocws a diben cyffredin ar gyfer trafodaethau yng nghyfarfodydd y tîm llawn;
- darparu strwythur ar gyfer sefydlu yn y gwasanaeth;
- goleuo'r anghenion o ran adnoddau staffio yn y dyfodol; a
- darparu strwythur ar gyfer monitro perfformiad ac adrodd arno.

33 Ceir pum tîm unigol o fewn y Gwasanaeth Cynllunio ac mae gan bob tîm drefniadau da ar gyfer cwrdd yn rheolaidd a chwrdd ag Arweinwyr Grŵp a Rheolwyr Gweithredol. Mae swyddogion yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda a'u bod wedi'u cysylltu'n dda â chydweithwyr yn eu priod dimau. Fodd bynnag, nid oes gan y gwasanaeth drefniant i'r pum tîm unigol gwrdd. Nid oes cyfarfod tîm ar draws y gwasanaeth cyfan. Mae hwn yn gyfle sy'n cael ei golli i greu dull 'un tîm' trwy wella cyfathrebu a dileu'r arfer cyfredol o weithio mewn seilos.

34 Un o ganlyniadau eraill bod heb gynllun gwasanaeth a chyfarfod tîm ar draws y gwasanaeth cyfan yw nad yw perfformiad a thargedau perfformiad y Gwasanaeth Cynllunio'n cael eu deall yn dda gan swyddogion. Gall bod â chynllun gwasanaeth sy'n cynnwys mesurau perfformiad, blaenoriaethau a chamau gweithredu ar gyfer holl ehangder y gwasanaeth gael ei drafod mewn cyfarfodydd tîm ar draws y gwasanaeth cyfan. Gall ennyn ymwneud gan swyddogion â phennu cyfeiriad y gwasanaeth yn y dyfodol a helpu swyddogion i ddeall eu cyfraniadau yn ogystal â'r dyheadau o ran perfformiad yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth cyfan.

## Nid yw trefniadau'r Gwasanaeth Cynllunio wastad yn ei gynorthwyo i fod yn effeithlon

35 Mae swyddogion yn disgrifio perthnasoedd gweithio da ag ymgyngoreion mewnol. Fodd bynnag, mae rhai ymgyngoreion yn ymateb i geisiadau cynllunio yn anffurfiol. Gall ymatebion anffurfiol greu risg i'r Cyngor gan na fydd yr ymgynghorai o bosibl yn darparu ei farn yn groyw. Gallai datblygu trefniant ffurfiol a strwythuredig i gael ymatebion gan ymgyngoreion mewnol ddileu'r risg bod swyddogion yn camddeall barn ymgyngoreion. Gall hefyd wella effeithlonrwydd o ran sut y mae swyddogion yn ymdrin ag ymatebion ymgyngoreion mewnol yn ogystal â gallu rhannu ymatebion yr ymgyngoreion gyda datblygwyr, ymgeiswyr cynllunio ac asiantau.

36 Ceir rhwystredigaeth ymhlith swyddogion gyda system TG y Gwasanaeth Cynllunio. Fe gyflwynodd y gwasanaeth system TG newydd yn 2022 gyda hyfforddiant cyfyngedig. Mae swyddogion yn ymwybodol y gallai'r system gynnig ymarferoldeb ychwanegol ac nad ydynt yn ei defnyddio hyd eithaf ei photensial. Rhwystredigaeth arall gyda'r system yw'r newidiadau o ran gairbrosesu y mae'n eu gwneud pan fo swyddogion yn mewnbynnu gwybodaeth. Mae hyn yn creu gwaith ychwanegol sy'n ddefnydd aneffeithlon o amser swyddogion. Fodd bynnag, mae swyddogion yn gwerthfawrogi'r nodiadau proses a gynhyrchir gan y tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid a Chymorth Busnes ac mae'r system TG yn gweithio'n effeithlon ar gyfer dyrannu, prosesu a chymeradwyo ceisiadau cynllunio.

37 Ym mis Mawrth 2024, fe gwblhaodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol adolygiad o'r Gwasanaeth Cynllunio ac fe roddodd farn archwilio 'effeithiol gyda chyfle i wella'. Canolbwyntiodd yr adolygiad hwn ar reolaethau sy'n rhoi cymorth i brosesu ceisiadau cynllunio a phenderfyniadau gorfodi. Un o argymhellion y gwasanaeth Archwilio Mewnol oedd bod y gwasanaeth yn adolygu ei Bolisi Gorfodaeth Gynllunio dyddiedig 2011. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r gweithdrefnau a safonau gwasanaeth y gall y cyhoedd eu disgwyl wrth wneud ymholiadau. Hefyd, nid oedd gan y gwasanaeth gofrestr gyfoes o achosion gorfodi a oedd ar gael i'r cyhoedd yn unol â gofynion statudol. Ar adeg ein harchwiliad ni, nid oedd y Cyngor wedi ymdrin yn llawn ag argymhelliad y gwasanaeth Archwilio Mewnol. Nid oedd gwefan y Cyngor yn cynnwys gwybodaeth am orfodi ac roedd polisi gorfodi'r Cyngor yn dal ar ffurf fersiwn ddrafft. Gall cymeradwyo'r ddogfen hon a threfnu ei bod ar gael yn gyhoeddus reoli disgwyliadau'r cyhoedd ac o bosibl lleihau nifer y cysylltiadau â'r gwasanaeth. Gall hefyd safoni'r wybodaeth a ddarperir gan y cyhoedd i'r swyddogion, a allai arwain at lai o ymweliadau â safleoedd gan arwain at ddefnydd mwy effeithlon o amser swyddogion.

## Ceir diwylliant dysgu a datblygu cefnogol yn y Gwasanaeth Cynllunio, ond nid yw'r gwasanaeth yn darparu proses sefydlu strwythuredig ac nid oes trefniant ganddo i swyddogion rannu gwersi

38 Ceir diwylliant cadarnhaol o ran ymdrin ag unrhyw wahaniaethau barn wrth benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio. Mae'r cyfarfodydd tîm unigol wythnosol yn darparu ar gyfer trafodaethau ynglŷn â cheisiadau cynllunio. Mae'r cyfarfodydd hyn yn hybu amgylchedd gweithio cefnogol. Mae'r trafodaethau hyn hefyd yn gyfle dysgu a datblygu i swyddogion.

39 Ar wahân i rôl Darpar Gynllunydd, nid oes unrhyw broses sefydlu ffurfiol na strwythuredig ar gyfer dechreuwyr newydd yn y Gwasanaeth Cynllunio. Er gwaethaf hyn, nododd swyddogion fod cydweithwyr yn groesawus a chefnogol o ran helpu cydweithwyr newydd i ymgartrefu. Fodd bynnag, gallai'r dull anffurfiol hwn arwain yn anfwriadol at anghysonderau yn y cymorth. Ar adeg ein harchwiliad, roedd y gwasanaeth wrthi'n recriwtio ar gyfer ei rolau gwag. Gall bod â phroses sefydlu strwythuredig ddarparu cysondeb i ddechreuwyr newydd. Gall ddarparu

dealltwriaeth eglur am y swydd, ei chyfrifoldebau, yr arferion gweithio yn y gwasanaeth, blaenoriaethau'r gwasanaeth a pherfformiad disgwyliedig. Gall bod â chynllun gwasanaeth gyfrannu at ddarparu'r strwythur sefydlu hwnnw hefyd.

40 Ceir diwylliant dysgu a datblygu cefnogol yn y Gwasanaeth Cynllunio. Mae swyddogion yn defnyddio'r Adolygiad o Berfformiad a Datblygiad Personol (PPDR) i drafod anghenion dysgu a datblygu. Yn sgîl cyfyngiadau cyllidebol, dywedodd swyddogion wrthym fod yr arian sydd ar gael ar gyfer cyfleoedd dysgu a datblygu y mae'n rhaid talu ffi amdanynt yn gyfyngedig. Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n annog swyddogion i chwilio am gyfleoedd hyfforddi rhad-ac-am-ddim ac mae'n cynorthwyo swyddogion i fynychu. Fodd bynnag, nid oes unrhyw drefniadau i swyddogion rannu'r hyn a ddysgwyd gyda'r tîm ehangach. Ar adeg pan fo adnoddau'n gyfyngedig, mae hwn yn gyfle sy'n cael ei golli i gynyddu i'r eithaf fanteision y dysgu a wneir gan swyddogion unigol.

41 Gall y strwythur staffio cyfredol gyfyngu ar allu swyddogion i gael profiad ehangach ar draws y Gwasanaeth Cynllunio. Mae rhannu rheoli datblygu'n ddau dîm – strategol ac anstrategol – yn creu dau dîm ar wahân gyda swyddogion yn dweud nad oes rhyw lawer o gyfle i gael profiad o weithio yn y ddau. Gall y trefniant hwn effeithio'n negyddol ar gynllunio ar gyfer olyniaeth a datblygiad gyrfa swyddogion. Ar adeg ein harchwiliad, roedd y gwasanaeth yn adolygu ei strwythur staffio.

## Nid oedd gan y Gwasanaeth Cynllunio gyfleoedd ffurfiol i swyddogion a rhanddeiliaid ddarparu adborth i oleuo dyluniad y gwasanaeth yn y dyfodol, ond erbyn hyn mae'r gwasanaeth yn ffurfioli ei drefniadau adolygu

42 Dywedodd swyddogion wrthym fod y Gwasanaeth Cynllunio'n agored i syniadau newydd a ffyrdd newydd o weithio, er nad oes trefniant ffurfiol i gasglu'r farn hon. Hefyd, nid yw'r gwasanaeth yn mynd ati'n ffurfiol i gasglu barn ei bartneriaid allweddol. Mae'r rhain yn gyfleoedd sy'n cael eu colli i ddeall a yw arferion gweithio cyfredol yn addas ar gyfer y diben.

43 Ar adeg yr archwiliad hwn, roedd y Gwasanaeth Cynllunio newydd ddechrau adnabod gwelliannau i'r gwasanaeth. Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau i recriwtio, newidiadau posibl i'r cynllun dirprwyo a newidiadau i arferion gweithio, megis cyflwyno polisi Gweithio'n Unigol. Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n ceisio dysgu oddi wrth ACLlau eraill Cymru a'r Dinasoedd Craidd i helpu i oleuo ei drefniadau ei hun a gwelliannau i'w wasanaethau.

44 Fe sefydlodd y Gwasanaeth Cynllunio Grŵp Cynllunio a Gwella i gydlynu gwelliannau a'u rhoi ar waith. Roedd y Grŵp hwn newydd gael ei sefydlu ar adeg ein harchwiliad, felly nid ydym yn gallu asesu ei effeithiolrwydd na chael sicrwydd bod y gwasanaeth yn bwriadu ceisio adborth gan ei holl swyddogion a rhanddeiliaid allweddol i adnabod gwelliannau i'r gwasanaeth.

## Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n adrodd ar ei berfformiad i ateb gofynion statudol a chorfforaethol, ond nid yw hyn yn dangos gwerth y gwasanaeth i'r Cyngor a'r cyhoedd yn llawn

45 Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn i sicrhau goruchwyliaeth a chraffu ar berfformiad sefydliadol. Mae aelodau ac uwch swyddogion yn cael diweddariadau'n rheolaidd. Mae'r rhain yn cynnwys yr adroddiadau llesiant canol blwyddyn a blynyddol. Mae'r holl wybodaeth am berfformiad mewn perthynas â'r Cynllun Corfforaethol yn cael ei diweddaru a'i hychwanegu at ddangosfwrdd y Cynllun Corfforaethol bob tri mis. Mae hyn yn cynnwys camau gweithredu a mesurau perfformiad y Gwasanaeth Cynllunio a nodir yng Nghynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd.

46 Fodd bynnag, gan mai dim ond cwpl o fesurau perfformiad mewn perthynas â chynllunio y mae'r adroddiadau hyn yn eu cynnwys, dim ond cipolwg y mae'r aelodau'n ei gael ar berfformiad y gwasanaeth. Nid yw'r mesurau perfformiad cyfyngedig yr adroddir arnynt wrth yr aelodau'n portreadu hyd a lled gwaith y Gwasanaeth Cynllunio.

47 Daeth y gofyniad gan Lywodraeth Cymru i ACLlau lunio Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad Cynllunio i ben yn ystod y pandemig. O ganlyniad, nid oes adroddiad ar wahân sy'n dwyn ynghyd yr holl wybodaeth am berfformiad, llwyddiannau a heriau'r Gwasanaeth Cynllunio mewn un lle ar gyfer ei hadolygu. Gallai adfer adroddiad blynyddol ar berfformiad helpu i lenwi'r bwlch sy'n bodoli ar hyn o bryd o ran monitro perfformiad ar draws y gwasanaeth cyfan. Gall alluogi swyddogion Cynllunio ac aelodau i gael dealltwriaeth fwy trylwyr am berfformiad y gwasanaeth. Byddai hefyd yn hwyluso proses o graffu ar berfformiad y gwasanaeth a'i herio. Gall bod â chynllun gwasanaeth ddarparu'r strwythur a'r cynnwys ar gyfer adroddiad ar berfformiad yn y dyfodol.

48 Nid yw'r Cyngor yn llunio adroddiad A106[5] blynyddol. Mae hwn yn gyfle sy'n cael ei golli i hyrwyddo sut y mae cyllid A106 o fudd i'r Cyngor a chymunedau. Pe bai'r Cyngor yn adrodd ar yr wybodaeth hon, byddai'n dangos yn well beth yw effaith a gwerth y cyllid hwn.

## Mae aelodau'r Pwyllgor Cynllunio'n deall eu rôl a'u cyfrifoldebau. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi adolygu trefniadau llywodraethu ei Bwyllgor Cynllunio i sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau sy'n cefnogi'r pwyllgor hwn

49 Mae'r 'Cyfrifoldeb am Swyddogaethau Anweithredol y Cyngor' a'r 'Cod Arfer Da Cynllunio ar gyfer Aelodau' yn darparu trosolwg eglur o rôl y Pwyllgor Cynllunio.

---

[5] Contract preifat cyfreithiol rwymol rhwng datblygwr (neu nifer o bartïon â buddiant) ac Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) sy'n gweithredu ochr yn ochr â chaniatâd cynllunio statudol yw cytundeb Adran 106 (A106).

Roedd aelodau y cyfwelom ni â hwy'n gallu disgrifio'n glir beth yw rôl a diben y Pwyllgor yn ogystal â'u cyfrifoldebau hwy.

50 Mae'r Cyngor yn rhoi cyfle i'r holl aelodau gael mynediad at sesiynau briffio ar rôl a gweithdrefnau'r Pwyllgor Cynllunio. Hefyd, mae'r Cyngor yn darparu rhaglen sefydlu addas ar gyfer aelodau'r pwyllgor ac yn rhoi cymorth da iddynt yn barhaus.

51 I roi cymorth ac arweiniad i'r holl aelodau etholedig a'r cyhoedd mewn perthynas â gweithdrefnau'r Pwyllgor Cynllunio, mae gan y Cyngor Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Cynllunio; Cod Arfer Da Cynllunio ar gyfer Aelodau a Chod Ymarfer Ymweld â Safleoedd. Mae cyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys y dogfennau hyn. Mae'r rhain yn manylu ar y canlynol:

- trefniadau gweithredol y Pwyllgor Cynllunio;
- trefniadau siarad cyhoeddus;
- ymddygiad a ddisgwylir gan aelodau etholedig ac aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfodydd y pwyllgor; yn ogystal â
- rolau a chyfrifoldebau aelodau y tu allan i gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio.

52 Fodd bynnag, mae elfennau o'r Cod Arfer Da Cynllunio ar gyfer Aelodau wedi dyddio. Mae adrannau o'r ddogfen hon yn cyfeirio at Bwyllgor Rheoli Datblygu; Rheolwr Rheoli Datblygu; Aelod Cabinet â chyfrifoldeb am yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth; ac Archwilwyr Dosbarth dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Gallai'r anghywirdebau hyn greu dryswch ynglŷn â threfniadau'r Cyngor i gefnogi'r Pwyllgor Cynllunio.

53 Ceir rhai rheolau annheg o fewn Rheolau Gweithdrefn y Pwyllgor Cynllunio hefyd:

- nid oes gan ymgeisydd am ganiatâd cynllunio nac asiant cynllunio hawl i siarad yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio, oni bai bod hynny mewn ymateb i ddeisebydd.
- mae'r terfyn amser i ddeisebwyr annerch y pwyllgor a'r hawl i ymgeiswyr ymateb yn dri munud tra bo gan aelodau o wardiau lleol bum munud. Nid yw'r trefniant hwn yn deg ac fe all greu canfyddiad bod sylwadau'r aelodau'n fwy gwerthfawr gydag aelodau'n cael mwy o amser i ddylanwadu ar benderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio.

54 Ceir hefyd rai trefniadau yn Rheolau Gweithdrefn y Pwyllgor Cynllunio nad yw'r Pwyllgor Cynllunio'n eu dilyn bob amser, sef:

- tri munud i swyddogion gyflwyno unrhyw faterion nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr adroddiad i'r Pwyllgor Cynllunio, megis materion ar y ddalen sylwadau hwyr;
- 15 munud i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio drafod pob cais cynllunio a phenderfynu yn ei gylch; a
- rhaid i sylwadau hwyr ddod i law yn ddim hwyrach na 24 awr cyn cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio.

55 Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw'n dilyn y trefniadau hyn yn gyson ac mae'n ymrwymedig i'w hadolygu.

56 Mae’r Cyngor yn dilyn ei gynllun dirprwyo, ond mae’n bwriadu ei adolygu. Mae’r Cyngor yn fwriadol yn peidio â diffinio ceisiadau cynllunio mawr yn ei gynllun dirprwyo. Er bod hyn yn rhoi hyblygrwydd i’r gwasanaeth pa un ai swyddogion ynteu’r Pwyllgor Cynllunio sy’n penderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio mawr, nid oes llwybr eglur i ymgeiswyr ar gyfer gwneud penderfyniadau.

57 Nid yw trefniant y Cyngor i benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio a gyflwynwyd gan swyddogion yn y Gwasanaeth Cynllunio’n dryloyw. Penderfynir fesul achos unigol ai cydweithiwr ynteu’r Pwyllgor Cynllunio sy’n penderfynu ynghylch cais swyddog. Er y caniateir y dull hwn, mae’n arfer da mai’r Pwyllgor Cynllunio sy’n penderfynu ynghylch y ceisiadau hyn. Mae hyn yn helpu i ddiogelu swyddogion rhag unrhyw wrthdaro buddiannau canfyddedig. Mae hefyd yn hybu tryloywder, yn enwedig i’r cyhoedd.

58 Mae’r cynllun dirprwyo’n nodi bod rhaid i unrhyw gais cynllunio sydd ag un sylw neu fwy gael ei gyflwyno gerbron Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio i gael ei adolygu. Mae hyn yn gosod llwyth gwaith trwm ar y Cadeirydd. Mae’r cynllun dirprwyo hefyd yn cynnwys yr angen i'r Pwyllgor Cynllunio benderfynu ynghylch yr holl geisiadau cynllunio lle ceir deiseb ddilys sy’n cynnwys o leiaf 50 o lofnodion.

59 Nid yw’r Cyngor wedi cwblhau adolygiad cynhwysfawr o’i gynllun dirprwyo cyfredol a threfniadau llywodraethu’r Pwyllgor Cynllunio ers amser maith. Byddai’n ddoeth iddo adolygu ei drefniadau i fyfyrio ynghylch rheolau annheg y Pwyllgor Cynllunio ac i sicrhau bod y Pwyllgor Cynllunio’n cael y ceisiadau cynllunio sy’n strategol bwysig ac a allai fod yn ddadleuol. Dylai hyn roi sicrwydd i’r Cyngor ei fod yn defnyddio ei adnoddau’n effeithlon i gefnogi’r Pwyllgor Cynllunio.

60 Mae’r Pwyllgor Cynllunio’n deall risgiau gwneud penderfyniad yn groes i gyngor swyddogion. Mae rhaglen sefydlu’r Pwyllgor Cynllunio’n cynnwys y risgiau ac, yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor, atgoffir aelodau o risgiau posibl. Hefyd, mae’r Pwyllgor Cynllunio’n cael ei wneud yn ymwybodol o benderfyniadau’r Arolygiaeth Gynllunio ynghylch mathau tebyg o geisiadau cynllunio. Mae hyn hefyd yn helpu aelodau i ddeall risgiau posibl gwneud penderfyniad sy’n wahanol i argymhelliad swyddog.

# Atodiad 1

## Cwestiynau archwilio a meini prawf archwilio

Isod ceir y cwestiynau yr oeddem yn ceisio eu hateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i lunio ein canfyddiadau.

Prif gwestiwn archwilio: **A oes gan y Gwasanaeth Cynllunio drefniadau priodol i gyflawni gwerth am arian o ran defnyddio ei adnoddau?**

**Arddangosyn 8: cwestiynau archwilio a meini prawf archwilio**

| Cwestiynau Lefel 2 | Meini Prawf Archwilio |
|---|---|
| 1. A yw'r gwasanaeth cynllunio'n cynorthwyo'r Cygnor i gyflawni ei amcanion llesiant? | • Mae Uwch Swyddogion ac Aelodau'n deall rôl y Gwasanaeth Cynllunio fel galluogwr allweddol i roi cymorth i gyflawni amcanion llesiant y Cyngor.<br>• Mae uwch swyddogion yn y Gwasanaeth Cynllunio'n aelodau o grwpiau corfforaethol/strategol i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhan o ddatblygiadau corfforaethol.<br>• Mae'r Gwasanaeth Cynllunio wedi'i gysylltu'n dda â gwasanaethau eraill y Cyngor sy'n rhoi cymorth a chyngor lle mae materion cynllunio yn y cwestiwn.<br>• Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn ddogfen berthnasol yr ymlynir wrthi ac sy'n cael ei deall gan y rhai sy'n rhan o wneud penderfyniadau cynllunio yn y Cyngor. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Meini Prawf Archwilio |
|---|---|
| 2. A oes gan y Gwasanaeth Cynllunio drefniadau i gyflawni ei amcanion? | • Mae gan y Gwasanaeth Cynllunio gynllun busnes (neu ddogfen gyfwerth) gydag amcanion y gwasanaeth sy’n cyd-fynd ag amcanion llesiant y Cyngor a gaiff eu deall gan bawb sy’n rhan o’r Gwasanaeth Cynllunio.<br>• Mae gan y Gwasanaeth Cynllunio fesurau perfformiad gan gynnwys data sylfaenol, targedau a cherrig milltir sy’n adlewyrchu cynnydd fel y bo’n briodol, y mae swyddogion cynllunio yn eu deall.<br>• Mae’r Cyngor yn deall y rhesymau dros berfformiad ei Wasanaeth Cynllunio ac yn rheoli hyn.<br>• Mae gan y Gwasanaeth Cynllunio ddealltwriaeth gynhwysfawr am ei gostau, ei incwm a’i adnoddau i roi cymorth i gyflawni ei amcanion a defnyddir hyn i oleuo ei drefniadau cynllunio ariannol yn y tymor byr, canolig a hir hyd y bo’n ymarferol.<br>• Mae gan y Gwasanaeth Cynllunio drefniadau cyfathrebu mewnol effeithiol.<br>• Ceir diwylliant cefnogol i ymdrin ag unrhyw wahaniaethau o ran barn broffesiynol wrth benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio ac achosion gorfodaeth gynllunio.<br>• Ceir perthnasoedd gweithio cadarnhaol ag ymgyngoreion (yn rhai statudol a mewnol).<br>• Mae gan y Gwasanaeth Cynllunio system gynllunio (TG) sydd o gymorth i ddarparu’r gwasanaeth. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Meini Prawf Archwilio |
| --- | --- |
| 3. A oes gan y Gwasanaeth Cynllunio rolau a chyfrifoldebau a ddiffinnir yn glir ac yr ymlynir wrthynt? | • Ceir cylch gorchwyl eglur ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio.<br>• Mae gan y Cyngor brotocol (neu ddogfen gyfatebol) ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio sy'n cynnwys cod ymddygiad a threfniadau gweithdrefnol y Pwyllgor Cynllunio y mae swyddogion ac aelodau'n ei ddeall ac yn ymlynu wrtho.<br>• Mae aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a staff cynllunio'n cael hyfforddiant a chymorth priodol i ddeall amcanion y gwasanaeth, polisïau cynllunio, rôl aelod o'r pwyllgor a threfniadau gweithdrefnol y Pwyllgor Cynllunio, ac mae hyn yn cael ei ddiweddaru pan fo angen.<br>• Mae'r Cyngor yn rhoi arweiniad i aelodau nad ydynt yn eistedd ar y Pwyllgor Cynllunio ynghylch polisïau cynllunio lleol a chenedlaethol a threfniadau gweithdrefnol y pwyllgor.<br>• Mae gan y Cyngor gynllun dirprwyo eglur a thryloyw yr ymlynir wrtho.<br>• Mae gan y Gwasanaeth Cynllunio brosesau eglur a thryloyw ar gyfer penderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio.<br>• Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n adnabod risgiau a chyfleoedd yn glir ac mae ganddo resymeg eglur ar gyfer unrhyw benderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio a wneir yn groes i gyngor proffesiynol swyddogion, ac mae hyn yn cael ei gofnodi. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Meini Prawf Archwilio |
|---|---|
| 4. A yw’r Gwasanaeth Cynllunio’n adolygu ac yn monitro effeithiolrwydd ei drefniadau? | • Mae’r Gwasanaeth Cynllunio’n dangos sut y mae’n cynnwys staff a phartneriaid allweddol wrth ddylunio’r modd y darperir y gwasanaeth yn y dyfodol.<br>• Mae’r Gwasanaeth Cynllunio’n defnyddio cwynion a chanmoliaeth (yn rhai mewnol ac allanol) i wella.<br>• Ceir diwylliant dysgu a datblygu cefnogol ar gyfer Aelodau a staff Cynllunio sy’n cael ei adolygu’n rheolaidd.<br>• Mae gan y Gwasanaeth Cynllunio a’r Pwyllgor Cynllunio ddiwylliant o ddatblygu’n barhaus ac maent yn dilyn arfer gorau i ddysgu oddi wrth Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill.<br>• Mae’r Gwasanaeth Cynllunio’n defnyddio’r data sydd ar gael i feincnodi.<br>• Mae’r Gwasanaeth Cynllunio’n gallu dangos ei fod yn gweithio gyda gwasanaethau cymorth megis gwasanaethau cyfreithiol i adolygu a monitro ei drefniadau a’i ymddygiad.<br>• Mae’r Gwasanaeth Cynllunio’n gwneud cynnydd tuag at gyflawni ei ddeilliannau bwriadedig (fel y’u nodir yng nghynllun corfforaethol y Cyngor).<br>• Ceir trefniadau i’r Gwasanaeth Cynllunio adrodd ar ei berfformiad yn erbyn ei amcanion ac amcanion llesiant y Cyngor wrth uwch reolwyr ac aelodau. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.